Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Arwyddion y Senedd

09 Medi 2020

**Cais am wybodaeth.**

Diolch i chi am eich cais, a ddaeth i law ar 17 Awst, pan wnaethoch ofyn:

*I ofyn am y canlynol o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth:*

*1. Y gost o symud arwyddion o amgylch Ystâd y Senedd a oedd yn dweud 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru' a'u disodli ag arwyddion yn dweud 'Senedd Cymru' neu debyg; cost yr arwyddion newydd; y gost o'u gosod (llogi offer, llafur ac ati) a chostau gwaredu'r hen arwyddion.*

*2. Enw gwneuthurwr yr arwyddion a ddefnyddir ar ochr, ac wrth brif fynedfa Tŷ Hywel; y Senedd; ac adeilad y Pierhead.*

*3. Yr un wybodaeth (cost cynhyrchu, gwaredu a gwneuthurwr) arwyddion ar gyfer swyddfa Bae Colwyn.*

*4. Faint o ddeunydd ysgrifennu, amlenni a chardiau busnes a argraffwyd yn ystod blwyddyn galendr 2020 (hyd yn hyn) yn dangos yr enw newydd a faint o hen stoc a ddinistriwyd.*

*5. Yr oriau staffio a dreuliwyd ar yr ailfrandio a chost fras o ran cyflogau am nifer yr oriau a amcangyfrifir (rwyf ar ddeall bod/y bu tîm o dan arweiniad Mr R Thomas) felly dylai nifer y staff a chyfanswm bras o ran cyflogau fod yn hawdd i'w cyfrifo.*

*6. Y gost o ddarparu bws addysgol y Cynulliad/ Senedd yn dilyn y newid enw.*

Gweler yr ymateb isod.

Nodwyd yr holl gostau amcangyfrifedig ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â'r newid enw yn y **Memorandwm Esboniadol** a oedd yn cyd-fynd â chyflwyno Bil Senedd ac Etholiadau

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

Senedd Cymru
Cardiff Bay
Cardiff CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

(Cymru). Mae'r wybodaeth hon, ynghyd â gwybodaeth fanwl am y **Ddeddf** ar gael ar wefan y Senedd. Bu Comisiwn y Senedd yn gweithio i gadw'r gost o roi'r newid enw ar waith ar ei isaf. Er enghraifft, penderfynwyd osgoi ailfrandio neu newid y logo. Mae cyfanswm y gost ar gyfer gwaith sy'n gysylltiedig â'r newid enw – ac eithrio amser staff – yn llai na £50,000.

1. Cyfanswm y gost o ailosod arwyddion allanol o amgylch ystâd y Senedd (gan gynnwys tynnu a gwaredu hen arwyddion a dylunio, cynhyrchu a gosod arwyddion newydd) oedd £14,502.83.

2. Y contractwr allanol a ddefnyddiwyd ar gyfer yr holl arwyddion allanol ar ystâd y Senedd a Bae Colwyn oedd y cwmni o Gaerdydd, Morgans Consult.

3. Cyfanswm y gost o ailosod arwyddion allanol yn swyddfa Bae Colwyn (gan gynnwys symud a gwaredu hen arwyddion a gweithgynhyrchu, a gosod arwyddion newydd) oedd £2,179.12

4. Cynghorwyd staff yn y misoedd oedd yn arwain at y newid enw i gyfyngu ar faint o'r hen stoc oedd dros ben, wrth archebu deunyddiau wedi'u hargraffu oedd yn cynnwys terminoleg a fyddai'n newid ar 6 Mai. Yn ystod y flwyddyn oedd yn arwain at y newid enw, roedd Comisiwn y Senedd yn dwyn i ystyriaeth faint o stoc a archebwyd, er enghraifft yn archebu amlenni gyda'r logo'n unig, heb enw. Yn achos amlenni wedi'u talu ymlaen llaw sy'n cynnwys yr hen enw, maent yn cael eu defnyddio i osgoi gwastraffu costau postio. O ganlyniad, nid oedd angen i Gomisiwn y Senedd ddinistrio unrhyw stoc. Ers mis Mai 2020, mae 5,000 o benawdau llythyrau, 4 llyfr nodiadau, a 600 o slipiau cyfarch wedi'u hargraffu gyda'r enw newydd am gost o £424. Dylid nodi, er mor fach yw'r ffigur hwn ei fod yn cynnwys argraffu 'busnes fel arfer' a fyddai wedi bod yn angenrheidiol
hyd yn oed heb y newid enw.

5. Nid oes ffigur ar gael ar gyfer amser staff a dreuliwyd ar newid enw gan y byddai cofnodi gwybodaeth o'r fath wedi gofyn am amser anghymesur (a chost, o ganlyniad). Nid oedd cost ychwanegol o ran amser staff a dreuliwyd ar y newid enw, yn hytrach fe ail-flaenoriaethwyd llwythi gwaith presennol.

6. Ni aed i unrhyw gost o'r fath. Nid yw'r bws y cyfeirir ato'n cael ei ddefnyddio erbyn hyn, ac fe gafodd ei werthu ym mis Awst 2018.

Yn gywir,

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Senedd wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF